

Etifeddiaeth y Diwydiant

BETHESDA - Pan oedd y diwydiant chwarela ar ei anterth, roedd gan Fethesda boblogaeth o dros 10,000. Heddiw, ceir oddeutu 4,327 o bobl yn byw yno (Cyfrifiad 2001). Gelwir y dref yn Pesda yn lleol. Mae gosodiad y dref yn adlewyrchu patrymau tirfeddiannol hanesyddol gyda'r tai wedi'u gwasgu ar y bryn mewn rhesi anghyson. Y rheswm am hyn oedd yr

A5 oedd yn marcio'r ffin rhwng tir yr Arglwydd Penrhyn a'r tir rhydd-ddaliadol. Gellir gweld yr etifeddiaeth hanesyddol hon ar y stryd fawr o hyd, lle gwelir yr holl dafarndai ar un ochr y ffordd. Cafodd y dref ei henwi ar ôl Capel Bethesda, sydd wedi cael ei drosi'n fflatiau preswyl yn ddiweddar. Yn ôl

Cyfrifiad 2001, mae 77% o'r preswylwyr yn siaradwyr Cymraeg, a hyd yn oed heddiw mae cyfartaledd nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dref yn fwy nag yn unrhyw le arall yng Nghymru.

Mae gan Fethesda sîn gerddoriaeth gref a daw bandiau eiconig



©image courtesy of Oriol Tegfryn Gallery and Lesley Prendergast

"Bigil" – darlun mewn olew gan Peter Prendergast

Cymraeg a Saesneg o'r dref. Cafodd Gruff Rhys o'r band Cymraeg, *Super Furry Animals* – un o'r grwpiau mwyaf cyffrous ac arloesol erioed o Gymru – ei addysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen ym Methesda. Daeth Maffia Mr Hughes, prif fand roc y sîn gerddoriaeth Gymraeg yn yr 1980au o'r dref, canolfan greadigol y sîn roc Gymraeg ers peth amser.

Bu tirwedd Bethesda yn ysbrydoliaeth i nifer o artistiaid eraill hefyd.

Cynhyrchodd Peter Prendergast, artist byd-enwog a gafodd ei addysg yn yr ysgol uwchradd ym Methesda, sawl darlun o'r chwarel lechi. Ganwyd Cefyn Burgess,



©image courtesy of Oriol Tegfryn Gallery and Lesley Prendergast

Llun o Chwarel Penrhyn mewn siarcol a sialc gan Peter Prendergast

y dyluniwr tecstilau a'r gwehydd byd-enwog, ym Methesda ac mae wedi cynhyrchu tapestrïau eiconig o gapeli Cymraeg a thecstilau'n seiliedig ar ddyluniadau a ddaeth o Gastell Penrhyn. Ganwyd y nofelydd Caradog Prichard, awdur y nofel Gymraeg eiconig, *Un Nos Ola Leuad*, ym Methesda hefyd.

TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.